

CYTUNDEB CADW TRAETHAWD YMCHWIL

Er mwyn cwblhau'r broses gyflwyno thesis terfynol, cwblhewch a llofnodwch y ffurflen hon. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan yr Ysgol Ddoethurol. Mae fersiwn y gallwch ei chwblhau'n ddigidol ac ychwanegu'ch llofnod digidol. Neu gallwch argraffu'r ffurflen hon, ei chwblhau a'i llofnodi mewn inc, ac yna creu copi digidol wedi'i sganio a'i chadw fel PDF i'w uwch lwytho ar PURE gyda'r thesis.

Am gyfarwyddiadau pellach gweler y **Canllawiau Cyflwyno Traethawd Ymchwil**

Mae'r cytundeb cadw traethawd ymchwil hwn at ddefnydd pob ymchwilwyr ôl-radd sy'n ymgeisio am radd Meistr Ymchwil (MAREs, MBAREs, MEdRes, LLMRes, MMinRes, MMusRes, MScRes, MThRes), Meistr mewn Athroniaeth (MPhil), Doethuriaeth Broffesiynol (DClinPsy, DMin, EdD, DHealthCare), neu Ddoethuriaeth mewn Athroniaeth (PhD).

Mae'n rhaid ateb pob cwestiwn.

1. **Enw'r awdur:**
2. **Cyfeiriad e-bost yr awdur ym Mhrifysgol Bangor:**
3. **Cyfeiriad e-bost personol yr awdur:** (nid Prifysgol Bangor) (Defnyddir y cyfeiriad hwn i gysylltu â chi ar ôl i chi adael y brifysgol os bydd rhywun yn holi a yw eich traethawd ymchwil ar gael):
4. **Rhif myfyriwr yr awdur:**
5. **Teitl y traethawd ymchwil:**
6. **Prif Oruchwyliwr:**
7. **Ysgol:**
8. **Cyllidwr (gadewch yn wag os nad oes un):**
9. **Geiriau allweddol sy'n disgrifio testun eich traethawd ymchwil:**
10. **Gwaharddiad:** Nodwch a oes gennych waharddiad (i rwystro mynediad) ar eich traethawd ymchwil. Er mwyn i'r gwaharddiad fod yn ddilys, bydd rhaid i'ch goruchwyliwr hefyd gyflwyno cais i rwystro mynediad trwy gysylltu â'r Ysgol Ddoethurol. Unwaith y bydd gwaharddiad yn weithredol, bydd y metadata sy'n disgrifio'r traethawd ymchwil ar gael ond bydd y traethawd ymchwil yn anhygyrch tan ddiwedd y gwaharddiad. *Dewiswch un::*
 - dim gwaharddiad
 - gwnaed cais am waharddiad
 - Mae Embargo eisoes wedi'i ganiatáu
11. **Cynnwys deunydd dan hawlfraint.** Dylech fod yn ymwybodol o bryd sy'n rhaid cael caniatâd i gynnwys deunydd dan hawlfraint trydydd parti yn eich traethawd ymchwil digidol; mae hyn yn cynnwys copïau o unrhyw gyhoeddiadau rydych chi wedi eu cyhoeddi. Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.bangor.ac.uk/library/copyright/thirdparty.php.en>. Am gymorth, cysylltwch â copyright@bangor.ac.uk. *Dewiswch un o'r canlynol:*
 - Rwyf wedi gwirio hawlfraint trydydd parti trwy gydol fy nhraethawd ymchwil, gan gynnwys pob atodiad, ac rwy'n bwriadu cyflwyno un fersiwn ddigidol o'm traethawd ymchwil.
 - Rwy'n bwriadu cyflwyno dau gopi digidol o'm traethawd ymchwil, un copi cyflawn na all fod ar gael yn ddigidol am resymau hawlfraint, ac un fersiwn gryno a all fod ar gael heb y deunydd dan hawlfraint trydydd parti.
 - Rwyf wedi gwneud cais am waharddiad parhaol ar fy nhraethawd hir gan fod gormod o ddeunydd dan hawlfraint trydydd parti yn y traethawd ymchwil ac am na chafwyd caniatad gan ddeiliad yr hawlfraint.

12. **Datganiad yr awdur:** trwy roi tic yn y blwch hwn rwy'n cydsynio â phob un o'r 10 gosodiad canlynol

1. Rwy'n cytuno mai fi yw'r awdur (neu fy mod wedi cael awdurdod yr awdur) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y traethawd ymchwil ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Rwy'n cytuno nad yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno'r un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd, oni bai fel y cytunwyd gan y brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cydnabyddedig.
3. Rwy'n cytuno mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff pob ffynhonnell arall eu cydnabod trwy gyfeiriadau priodol.
4. Rwy'n cytuno fy mod wedi ymarfer gofal rhesymol i sicrhau bod y traethawd ymchwil yn wreiddiol ac nad ydyw, hyd y gwn, yn torri unrhyw ddeddfau - yn cynnwys y rhai'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
5. Rwy'n cytuno nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran yr awdur, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn cael ei dorri, yn y deunydd a gedwir.
6. Rwy'n cytuno y byddaf yn digolledu Prifysgol Bangor, a pharhau i'w digolledu, rhag unrhyw golled, rhwymedigaeth, hawliad neu ddifrod, yn cynnwys heb gyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), yn gysylltiedig ag unrhyw achos o dorri unrhyw rai o delerau'r cytundeb hwn gennyf.
7. Oni bai fy mod wedi cael gwaharddiad parhaol, rwy'n deall y caiff fy nhraethawd ymchwil ei gadw yng nghadw'rfa sefydliadol y brifysgol (PURE) a bydd yn hygyrch heb unrhyw gyfyngiad ar fynediad (naill ai ar unwaith, neu ar ddiwedd cyfnod penodedig y gwaharddiad) i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang. Rwy'n deall unwaith y cedwir y traethawd ymchwil ac ar ôl i unrhyw waharddiad ar fynediad ddod i ben, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol traethodau ymchwil a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.
8. Mae Prifysgol Bangor yn adneuo ei chynnyrch ysgolheigaidd o draethodau hir a thraethodau ymchwil yn ProQuest Dissertations a Theses Global er mwyn hyrwyddo a chadw cynnyrch deallusol ei hymgeiswyr gradd ddoethurol. Mae ProQuest® Dissertations a Theses Global yn cyrraedd 3,000 o brifysgolion gyda dros 200 miliwn o chwiliadau bob blwyddyn ac yn cefnogi darganfod cynnyrch ysgolheigaidd trwy'r holl brif fynegeion pwnc a disgyblaeth (SciFinder, MathSciNet, PsycINFO, ERIC, etc.). Mae ProQuest yn darparu'r gwasanaethau hyn am ddim. Mae ProQuest yn hwyluso dosbarthiad anghyfyngedig eich traethawd ymchwil Meistr neu Ddoethuriaeth. Rydych yn gymwys i gael breindal o 10% yn seiliedig ar werthu a defnyddio testun llawn eich gwaith wedi ei ddsbarthu gan ProQuest. Gallwch dynnu eich gwaith yn ôl rhag cael ei ddsbarthu ar unrhyw adeg (gwybodaeth bellach yma: https://media2.proquest.com/documents/pqdt-authoragreement_0.pdf . Cysylltwch â disspub@proquest.com os oes gennych unrhyw gwestiynau.
9. Rwy'n deall bod yr hawliau a roddir i'r gadw'rfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rwy'n rhydd i gyhoeddi'r traethawd ymchwil yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn manau eraill. Caiff pob traethawd ymchwil ei ryddhau gyda thrwydded hawlfraint sy'n eich galluogi i gadw'r hawliau i'ch gwaith. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â repository@bangor.ac.uk
10. Rwy'n cytuno y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig neu gopiö neu drosi'r traethawd ymchwil i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a'i ddefnyddio yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y traethawd ymchwil yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynndynt yn wreiddiol.

Llofnod:

Dyddiad: